Cael trafferth darllen y cylchlythyr hwn? [Darllenwch ef yn eich porwr.]

# bwletin
## gweinyddiaeth etholiadol




**Rhifyn 315 (Cymru) - 2 Mawrth 2022**

## Etholiadau mis Mai 2022: diweddariad o ran ein canllawiau

**Cefnogi sicrwydd ansawdd**
Ym Mwletin 307 fe wnaethom amlygu ein gwaith gyda'r Y Bwrdd Cydlynu a Ymgynghori Etholiadol (ECAB) a'r is-grwpiau sydd newydd eu sefydlu i fynd i'r afael â'r heriau a amlygwyd eto yn etholiadau Mai 2021 yn ymwneud â gwydnwch a gallu gwasanaethau etholiadol. Yn ogystal â gwaith yr is-grŵp sy'n edrych ar gyflenwyr, rydym bellach wedi cyhoeddi adnodd newydd: Sicrwydd ansawdd cynhyrchu a dosbarthu deunyddiau etholiadol. Cynlluniwyd y canllawiau i helpu Swyddogion Canlyniadau i sicrhau ansawdd y broses o gynhyrchu deunyddiau etholiadol ac mae'n rhoi trosolwg o'r pwyntiau allweddol y mae angen eu hystyried wrth weithio gyda chyflenwyr.

**Llawlyfr gorsaf bleidleisio - diweddariad**
Mae'r llawlyfrau gorsafoedd pleidleisio ar gyfer etholiadau llywodraeth leol Mai 2022 bellach wedi'u cyhoeddi ar ein gwefan. Yn ôl yr arfer, bydd copïau cael eu hanfon ddiwedd y mis yn at y rheiny a wnaeth eu harchebu. Fel pob tro, os oes gennych unrhyw gwestiynau, neu os bydd angen rhagor o gymorth arnoch, cysylltwch â gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk.

## Diwrnod Croeso i Dy Bleidlais

Mae'r Comisiwn Etholiadol yn cynnal Diwrnod Croeso i dy Bleidlais ddydd Iau 10 Mawrth i godi ymwybyddiaeth ynghylch yr hawl i bleidleisio ymhlith dinasyddion tramor cymwys yng Nghymru a'r Alban sydd wedi'u hetholfreinio'n ddiweddar.

Rydym yn annog elusennau a sefydliadau'r sector cyhoeddus i gynnal sesiynau gwybodaeth i bleidleiswyr cyn etholiadau'r cyngor gan ddefnyddio ein hadnoddau newydd ar gyfer dinasyddion tramor cymwys, sy'n cynnwys Cwestiynau Cyffredin mewn ieithoedd amrywiol a chanllaw i hwyluswyr. Rydym hefyd wedi cyhoeddi pecyn cyfathrebu y gallwch ei ddefnyddio i ledaenu'r neges ar draws eich sianeli cyfathrebu.

Y Comisiwn Etholiadol

## Cynnwys

**Etholiadau mis Mai 2022: diweddariad o ran ein canllawiau**

Gwybodaeth am a dolenni i adnodd newydd ar gyfer Swyddogion Canlyniadau ar sicrhau ansawdd y broses o gynhyrchu a dosbarthu deunyddiau etholiad, a diweddariad ar gyhoeddi a dosbarthu llawlyfrau gorsafoedd pleidleisio.

**Diwrnod Croeso i Dy Bleidlais**

Gwybodaeth a dolen i'n hadnoddau i godi ymwybyddiaeth ynghylch yr hawl i bleidleisio ymhlith dinasyddion tramor cymwys sydd newydd eu hetholfreinio.

**Etholiadau mis Mai 2022: galwad am ddata gorsafoedd pleidleisio**

Cais am wybodaeth i ddiweddaru ein teclyn canfod gorsaf bleidleisio.

**Rydym yn cyhoeddi Bwletinau Gweinyddu Etholiadol yn rheolaidd. Maent yn un o'n prif ffyrdd o gyfathrebu â Swyddogion Canlyniadau, Swyddogion Cofrestru Etholiadol, a'u staff. Mae rhifynnau blaenorol Bwletinau Cymru, Lloegr a'r Alban ar gael fan hyn. Gallwch hefyd danysgrifio i'n Bwletinau Gweinyddu Etholiadol.**

**Rhowch wybod i ni am unrhyw newidiadau i aelodau staff yn eich tîm. Bydd hyn ein helpu i sicrhau bod ein rhestr bostio yn gyfredol.**

**Os caiff Swyddog Canlyniadau/Swyddog Cofrestru**

Mae'r holl adnoddau ar gael ar ein gwefan. Rhannwch rhain gyda chydweithwyr a sefydliadau yn eich hardal leol. Os hoffech ragor o wybodaeth am yr ymgyrch e-bostiwch infowales@electoralcommission.org.uk.

## Etholiadau mis Mai 2022: galwad am ddata gorsafoedd pleidleisio

Eleni, rydym unwaith eto yn cynnal y teclyn canfod gorsaf bleidleisio, mewn partneriaeth â Democracy Club, er mwyn helpu sicrhau bod gan bleidleiswyr fynediad at wybodaeth gywir a phrydlon o ran sut a ble y gallant bleidleisio.

Bydd angen eich data gorsaf bleidleisio diweddaraf arnom i sicrhau bod pleidleiswyr yn mynd i'r orsaf bleidleisio gywir. Trwy sicrhau bod y wybodaeth hon ar gael yn rhwydd ar-lein, dylai helpu i leihau'r nifer o alwadau rydych yn eu cael gan bleidleiswyr sy'n chwilio am y wybodaeth hon.

Mae darparu eich data yn rhwydd. Gallwch allforio'r data o'ch EMS, ac yna ei uwch-lwytho gan ddefnyddio teclyn hawdd ei ddefnyddio newydd Democracy Club. Fel arall, gallwch ei e-bostio at pollingstations@democracyclub.org.uk o hyd.

Ceir cyfarwyddiadau manwl ar gyfer pob cyflenwr, os oes eu hangen.

I sicrhau bod gennym amser i newid y wybodaeth, rydym yn gofyn eich bod yn anfon eich data gorsaf bleidleisio mor fuan â phosibl, os nad ydych wedi gwneud hynny'n barod.

Os hoffech weld y teclyn canfod gorsaf bleidleisio ar eich gwefan eich hun, gallwch fewnosod teclyn etholiad Democracy Club.

Y Comisiwn Etholiadol, Cymru
Tŷ'r Cwmnïau, Ffordd y Goron, Caerdydd, CF14 3UZ
Ffôn: 0333 103 1929

gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk

**www.electoralcommission.org.uk**
© Y Comisiwn Etholiadol 2022

**Etholiadol ei benodi yn eich awdurdod, cysylltwch â'r tîm yng Nghymru drwy e-bostio gwybodaeth@comisiwnetholiadol.org.uk**

**Rydym yn anfon y cylchlythyr hwn atoch gan ei fod yn cynnwys gwybodaeth bwysig am waith y Comisiwn Etholiadol sy'n berthnasol i chi. Mae'r cylchlythyr yn rhan o dasg gyhoeddus y Comisiwn Etholiadol sydd â'i sail yn Neddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000. Byddwn yn rheoli eich gwybodaeth bersonol a manylion cyswllt yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol a deddfwriaeth diogelu data y DU, fel yr amlinellir yn ein hysbysiad preifatrwydd (https://www.electoralcommission.org.uk/cy/hysbysiad-preifatrwydd)**

**Os nad ydych am dderbyn y cylchlythyr hwn mwyach, gallwch ddat-danysgrifio unrhyw bryd.**